# CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADFYWIO A HAMDDEN

**DYDD** Gwener, 10 Mehefin 2016

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd:** M. Gravell (Aelod o'r Bwrdd Gweithredol).

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**
J Hancock, Swyddog Datblygu Mentrau Cymdeithasol Blaenllaw
R Butler, Swyddog y Wasg
M.S. Davies, Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd

## 1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant.

## 2. COFNOD PENDERFYNIADAU - 23 MAI 2016

**PENDERFYNWYD llofnodi'r cofnod penderfyniadau o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mai 2016 gan ei fod yn gofnod cywir.**

## 3. CYMORTH ARIANNOL O'R GRONFA GRANT GANLYNOL: CRONFA CYLLID A DARGEDIR

**PENDERFYNWYD**

**3.1 cymeradwyo'r cais canlynol am gymorth o'r Gronfa Cyllid a Dargedir yn amodol ar y telerau a'r amodau arferol ac ar y rhai a bennwyd yn yr adroddiad:-**

| Ymgeisydd | Dyfarniad |
|---|---|
| Clwb Rygbi Crwydriaid Llanelli | £20,000.00 |

**3.2 gohirio ystyried y cais gan Fenter Cwm Gwendraeth Elli hyd nes y ceir sicrwydd pellach ynghylch cynaliadwyedd hirdymor prosiect Bywyd Bywiog.**